**Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Education & Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA-P-MD-4287-17

Prif Weithredwyr
Prif Swyddogion Cyllid
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:
Cyfar
wyddwr Cyllid ac Adnoddau, CLlLC

18 Rhagfyr 2017

Annwyl Gydweithiwr,

**ARDRETHI ANNOMESTIG: HYSBYSIAD O LUOSYDD AR GYFER 2018-19**

Caiff yr hysbysiad hwn ei gyhoeddi ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â pharagraff 3B o Atodlen 7 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 sy'n rhagnodi'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ardrethi annomestig mewn blynyddoedd lle nad ydynt yn ailbrisio.

Y Lluosydd ar gyfer Ardrethi Annomestig yn y flwyddyn ariannol drethadwy 2017-18 fydd **0.514**.

Cafodd y cyfrifiad hwn ei wneud drwy ddefnyddio'r fformiwla (A x B) / C ar y sail ganlynol:

| | | |
|---|---|---|
| A yw | 0.499 | (y lluosydd ar gyfer 2017-18) |
| B yw | 272.8 | (y ffigur a ragnodir gan Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 5(3) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988) |
| C yw | 264.9 | (y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) ar gyfer Medi 2016) |

Ar gyfer 2018-19, mae B wedi'i bennu fel bod y cynnydd yn y lluosydd yn cyfateb i gyfradd) o chwyddiant CPI (Mynegai Prisiau Defnyddwyr) yn hytrach na'r RPI (Mynegai Prisiau Manwerthu). Mae'r newid hwn yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ac ni fydd unrhyw effaith ar y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol o ganlyniad i hyn.

Yn gywir

**Ben Crudge**
**Pennaeth Polisi Ardrethi Annomestig**
**Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol**

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel: 03000 251513
Ebost • Email ben.crudge@gov.wales